Senedd Cymru | Welsh Parliament
Ymchwil y Senedd | Senedd Research

P-06-1205 Buddsoddwch mewn amddiffynfeydd llifogydd ar y Tywi yng Nghaerfyrddin gan gynnwys ardal y Cei

Y Pwyllgor Deisebau | 1 Tachwedd 2021
Petitions Committee | 1 November 2021

Cyfeirnod: SR21/1044-6

Rhif y ddeiseb: P-06-1205

Teitl y ddeiseb: Buddsoddwch mewn amddiffynfeydd llifogydd ar y Tywi yng Nghaerfyrddin gan gynnwys ardal y Cei

Geiriad y ddeiseb: Mae llifogydd ar y Tywi nifer o weithiau mewn blwyddyn, gan effeithio ar y busnesau sydd ar ei glannau. Mae angen gwneud rhywbeth fel mater o frys, mae'r cyhoedd yn gweld digon o bwyllgorau, ond dim gweithredu.

1. Cefndir

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn nodi bod **245,000 o eiddo mewn perygl o lifogydd**. Dywed gwyddonwyr hinsawdd y gallwn ddisgwyl digwyddiadau tywydd mwy eithafol a chodiad yn lefel y môr.

Bu llifogydd yng Nghei Caerfyrddin ar Afon Tywi dair gwaith rhwng mis Rhagfyr 2020 a mis Chwefror 2021. Bu llifogydd ar Afon Tywi yn flaenorol yn ystod storm Callum yn 2018 pan orlifodd yr amddiffynfeydd llifogydd, ac adroddwyd mai dyma oedd y llifogydd mwyaf yn yr ardal ers 1987.

Y cyd-destun deddfwriaethol a pholisi

Mae *Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010* (y Ddeddf) yn gwneud darpariaeth ar gyfer rheoli llifogydd ac erydu arfordirol, ac yn rhoi pwerau, ac yn gwneud gofynion i Lywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol.

Mae Adran 6 o'r Ddeddf yn diffinio rolau a chyfrifoldebau 'Awdurdodau Rheoli Risg'. Yng Nghymru, y rhain yw Cyfoeth Naturiol Cymru, pob un o'r 22 o awdurdodau lleol (sy'n gweithredu fel Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol), awdurdodau priffyrdd (awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru) a chwmnïau dŵr a charthffosiaeth.

Cyfrifoldeb dros reoli llifogydd

Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am bolisi cenedlaethol – a nodir yn ei Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol (y Strategaeth Genedlaethol). Awdurdodau lleol, sef Cyngor Sir Gâr yn yr achos hwn, sy'n gyfrifol am Strategaethau Rheoli Perygl Llifogydd Lleol, gan osod amcanion ar gyfer rheoli risg llifogydd yn lleol.

Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gyfrifol am reoli'r perygl o lifogydd gan brif afonydd, cronfeydd dŵr a'r môr. Mae Afon Tywi yn brif afon, ac felly Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gyfrifol am reoli ei llifogydd.

Ar ôl llifogydd sylweddol, mae Adran 19 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol gynnal ymchwiliadau a chyhoeddi'r canlyniadau. Mae'r ymchwiliadau hyn yn helpu'r Awdurdodau Rheoli Risg i ddeall hyd a lled yr effeithiau a gallant lywio gwelliannau i reoli risg mewn cymuned, gan

gynnwys cynlluniau newydd i leihau'r tebygolrwydd o lifogydd pellach. Cyhoeddodd Cyngor Sir Gâr adroddiad Adran 19 yn ymateb i Storm Callum. Nid oes adroddiad wedi'i gyhoeddi yn dilyn y llifogydd yng Nghei Caerfyrddin yn ddiweddar.

2. Camau gweithredu gan Lywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ariannu amddiffyniad llifogydd ychwanegol ar gyfer dros 45,000 o gartrefi yn nhymor hwn o'r Senedd. Mae'r risgiau i gymunedau o lifogydd a chodiad yn lefel y môr yn flaenoriaeth ar gyfer gwaith ymchwil Ffyniant i Bawb: Cymru sy'n effro i'r hinsawdd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi £390 miliwn i helpu i reoli'r perygl o lifogydd rhwng 2016 a 2021.

Gall Awdurdodau Rheoli Risg wneud cais am arian grant i leihau'r perygl o lifogydd i gymunedau trwy raglen rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol Llywodraeth Cymru. Gwneir cyhoeddiad bob blwyddyn i gadarnhau'r prosiectau sy'n llwyddiannus. Mae dros £65 miliwn yn cael ei fuddsoddi drwy'r rhaglen yn 2021-22.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu cyllid i awdurdodau lleol a Chyfoeth Naturiol Cymru i gefnogi gwaith atgyweirio asedau Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol ar ôl llifogydd.

Yn ei hymateb i'r ddeiseb hon, nododd Julie James, y Gweinidog Newid Hinsawdd:

> The decision on whether a flood scheme should be brought forward for the River Towy rests with Natural Resources Wales as the relevant Risk Management Authority for main rivers. We would expect any major scheme to also include discussions with the local authority and those benefitting.
>
> The Welsh Government does not stipulate which communities our Risk Management Authorities should focus its attention on, but expect them to prioritise areas which primarily reduce risk to homes.
>
> Businesses may also benefit where homes are also being protected, or where the Risk Management Authority is able to justify a scheme which only protects businesses.

3. Camau gweithredu Senedd Cymru

Yn y Cyfarfod Llawn ym mis Mehefin 2021, gofynnodd Samuel Kurtz AS i'r Gweinidog amlinellu'r cynnydd ar "ddarparu diogelwch uniongyrchol i dref Caerfyrddin rhag mwy o lifogydd o'r fath".

Gan ymateb i hynny, tynnodd y Gweinidog sylw at gyllid ychwanegol a ddyrannwyd i Gyfoeth Naturiol Cymru, a bod Llywodraeth Cymru yn "gweithio'n agos iawn gyda'n partneriaid awdurdod lleol i sicrhau eu bod yn gwneud yr asesiadau cywir a bod gennym y math cywir o brosiectau rheoli llifogydd yn ceisio am gyllid cyfalaf".

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddaru o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.